# Dewis Safle

Dewiswyd y safle fel y lleoliad mwyaf addas ar gyfer y datblygiad yn dilyn ymarfer chwilio safle cynhwysfawr a oedd yn blaenoriaethu tir llwyd a thir diwydiannol cyn symud i safleoedd maes glas. Yna cynhaliwyd ymarfer mapio i ddileu ardaloedd o fewn dynodiadau hanesyddol ac amgylcheddol yn ogystal â thir amaethyddol o ansawdd uwch (Gradd 1 a 2).

Yna cafodd safleoedd eu nodi, eu hasesu a'u sgorio yn erbyn nifer o feini prawf a bennwyd ymlaen llaw a oedd yn ein galluogi i hidlo'r opsiynau mwyaf anaddas a nodi'r safleoedd a oedd yn cael yr effaith leiaf ar yr amgylchedd a chymunedau lleol.

## Dosbarthiad tir amaethyddol

Drwy gydol y broses o nodi safleoedd rydym wedi blaenoriaethu tir amaethyddol o ansawdd is. Mae mapio o fapiau Natural England yn cadarnhau bod y safle'n osgoi tir amaethyddol o ansawdd uwch (Gradd 1 a 2).

Bydd arolwg dosbarthiad tir amaethyddol llawn yn cael ei gynnal gan arolwg annibynnol yn unol â chanllawiau'r diwydiant a'i gyflwyno fel rhan o'n cais cynllunio.

## Tirwedd a Gwelededd

Mae'r dewis safle a'r cynllun wedi'u llywio gan arolygon tirwedd parhaus ac mae hyn wedi arwain at safle sydd:

- I ffwrdd o ardaloedd poblog
- I ffwrdd o ddynodiadau tirwedd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol pwysig
- Wedi'i sgrinio'n bennaf gan y topograffi presennol a'r gorchudd coed
- Ger ffordd ddeuol yr A55

Bydd asesiad tirwedd ac asesiad gweledol llawn yn cael ei baratoi a'i gyflwyno gyda'r cais a bydd yn cynnwys ffotogyfosodiadau o'r datblygiad arfaethedig o olygfannau sensitif.

## Sŵn

Mae canlyniad ein modelu sŵn wedi dangos na fyddai unrhyw effeithiau sŵn andwyol sylweddol yn cael eu creu gan y datblygiad arfaethedig. Mae monitro sŵn a modelu sŵn 3D wedi'u cynnal gan ein hymgynghorydd acwstig arbenigol. Mae hyn yn ystyried topograffi, agweddau ffisegol yr offer arfaethedig a osodwyd a'r lefelau sŵn cefndir presennol.

Mae'r dyluniad BESS wedi'i fireinio i leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl oherwydd sŵn.

## Perygl Llifogydd a Draenio

Mae'r rhan fwyaf o'r safle mewn ardal sydd â'r risg leiaf o lifogydd afonydd (Parth Llifogydd 1). Er bod rhywfaint o dir ym Mharth Llifogydd 2 a 3 yn ne'r safle, mae cynllun y safle, a'r seilwaith wedi'i osod allan i osgoi'r ardal hon.

Bydd asesiad canlyniadau llifogydd a strategaeth ddraenio yn cael eu cyflwyno gyda'r cais cynllunio.

## Diogelwch Tân

Mae holl safleoedd BESS NatPower yn cydymffurfio â holl ddeddfwriaeth Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol berthnasol y DU.

Mae'r dyluniad yn integreiddio'r holl ganllawiau a argymhellir gan y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol gan gynnwys dyluniad a chynllun y safle, cyflenwad dŵr brys ar y safle, mesurau lliniaru risg, a chyswllt â'r gwasanaeth achub tân.

Mae'r batris o ansawdd uchel ac yn defnyddio'r dechnoleg batri ddiweddaraf. Maent yn cydymffurfio'n llawn â holl safonau a chanllawiau argymelledig y diwydiant.

Rydym wedi cyflogi arbenigwr diogelwch tân annibynnol i sicrhau bod y safle'n cydymffurfio â'r safonau uchaf o ran diogelwch tân.

## Treftadaeth ac Archaeoleg

Nid oes unrhyw asedau treftadaeth dynodedig na dynodiadau archeolegol o fewn ffin y safle. Yn ogystal, mae tirweddu a phlannu presennol ac arfaethedig yn golygu mai ychydig iawn o niwed a fyddai i leoliad asedau treftadaeth adeiledig yn yr amgylchedd cyfagos.

## Trafnidiaeth

Byddai mynediad i gerbydau adeiladu i'r safle yn cael ei ddarparu o'r gorllewin ar hyd slipffordd oddi ar yr A5119 (Heol Llaneurgain) i gyrraedd cornel de orllewin y safle. Bydd pwynt mynediad brys eilaidd yn cael ei ddarparu ar ffin ogledd-orllewinol y safle, a fydd yn cysylltu â Starkey Lane.

Mae asesiadau trafnidiaeth manwl wedi'u cynnal ac aseswyd llwybrau mynediad eraill o ran hyfywedd.

Byddem yn gweithio gyda thrigolion lleol a chymunedau i sicrhau bod cyflenwadau'n cael eu cyfyngu i oriau a fyddai'n achosi'r aflonyddwch lleiaf a byddem yn ymdrechu i leihau nifer y symudiadau cerbydau sydd eu hangen. Byddai hyn yn cael ei amlinellu mewn Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu a fyddai'n cael ei sicrhau trwy amod cynllunio.

## Ecoleg

Rydym wedi bod yn cynnal arolygon ecolegol ar y tir i sicrhau bod yr effeithiau ar gynefinoedd a bywyd gwyllt presennol yn cael eu cadw mor isel â phosibl.

Rydym hefyd wedi chwilio am gyfleoedd i hybu bioamrywiaeth, gan anelu at sicrhau 'cynnydd net bioamrywiaeth' o fewn ffin y safle.

Rydym yn cynnig cadw rhai rhannau o'r safle ar gyfer cynefinoedd naturiol gwell ar gyfer fflora a ffawna. Byddai hyn yn cynnwys coed newydd, pyllau, a mannau ar gyfer peillwyr.




NatPower